OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 Rhif 791 (Cy.106)

# CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

## Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) (Diwygio) (Cymru) 2012

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *10 Mawrth 2012* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *13 Mawrth 2012* |
| *Yn dod i rym - -* | *30 Mawrth 2012* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 220(1) a (2A) a 333(1) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(**1**) ac sy'n arferadwy bellach ganddynt hwy(**2**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

(**1**) 1990 p.8. Diwygiwyd adran 220 gan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (p.5), adran 42(4). Diwygiwyd adran 333(1) gan Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p.25), adran 78 ac Atodlen 10, paragraff 32(12).

(**2**) Trosglwyddwyd y swyddogaethau o dan yr adrannau hynny, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hynny bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru.